

Pomalidomide ar gyfer myeloma lluosog sydd wedi'i drin yn flaenorol â lenalidomide a bortezomib

Ionawr 2017

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir pomalidomide (Imnovid), wedi'i roi gyda dogn isel o dexamethasone. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer myeloma lluosog mewn oedolion y mae eu clefyd wedi gwaethygu er iddynt gael 3 triniaeth, gan gynnwys lenalidomide a bortezomib.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych myeloma lluosog, a bod eich meddyg o'r farn mai pomalidomide yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai pomalidomide fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd pomalidomide nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae myeloma lluosog yn fath o ganser sy'n effeithio ar gelloedd yn y mêr esgyrn. Gall symptomau gynnwys poen esgyrn, torri esgyrn, anemia, diffyg archwaeth am fwyd, gwaedu eithafol ar ôl cytiau neu grafiadau, a heintiau mynych.

Math o gyffur yw pomalidomide sy'n newid ymateb imiwnedd y corff. Pan roddir ar y cyd â chyffur o'r enw dexamethasone, mae'n helpu i atal celloedd canser rhag tyfu.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Myeloma UK](#), 0131 557 3332
- [Bloodwise](#) (Ymchwil Lewcemia a Lymffoma yn flaenorol), 0808 2080 888
- [Gofal Lewcemia](#), 08088 010 444
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#) (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- [Macmillan](#), 0808 808 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2362-5